# Partnering for Change:

## Cardiff University and its activities in the Capital Region

Pierhead Building, Cardiff Bay
**1 November 2016**
Sponsored by **Vikki Howells** AM, Cynon Valley

# Creu Newid ar y Cyd:

## Prifysgol Caerdydd a'i gweithgareddau yn y Brifddinas-Ranbarth

Adeilad y Pierhead, Bae Caerdydd
**1 Tachwedd 2016**
Noddir gan Vikki Howells AC, Cwm Cynon



# I'm delighted to welcome you to our showcase event here at the Pierhead Building, Cardiff Bay.

Today's event celebrates some of the exciting and innovative ways in which Cardiff University academics and students are engaging with communities, organisations and issues within the city-region of southeast Wales – the Cardiff Capital Region. This is a fantastic opportunity to see and hear more about a wide range of initiatives – from the University's flagship engagement projects, to a series of pilot projects, funded by the City Region Exchange, that explore new ways of working in the region.

The University's engagement with our region is becoming ever more important. The increasing range of challenges and opportunities facing the city-region means that now, more than ever, it is vitally important that the University works in partnership with local communities and organisations to share ideas and help address needs. As such, we hope that this event will not only show what can be done, but will also spark new ideas for projects and collaborations. So, please use the available opportunities provided today to give us your suggestions as to how we might further strengthen engagement with the city-region.

Thank you for joining us today. I hope you have an enjoyable and inspiring visit.

**Professor Gillian Bristow**
City Region Exchange, Cardiff University

# Mae'n bleser gennyf eich croesawu i'n digwyddiad arddangos yma yn Adeilad y Pierhead, Bae Caerdydd.

Mae'r digwyddiad heddiw yn dathlu rhai o'r ffyrdd cyffrous ac arloesol y mae academyddion a myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn ymgysylltu â chymunedau, sefydliadau a materion o fewn dinas-ranbarth de-ddwyrain Cymru – Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae hwn yn gyfle gwych i weld ac i glywed rhagor am amrywiaeth eang o fentrau – o brif brosiectau ymgysylltu'r Brifysgol, i gyfres o brosiectau peilot, a ariennir gan Gyfnewidfa'r Dinas-Ranbarth, sy'n edrych ar ffyrdd newydd o weithio yn y rhanbarth.

Mae gwaith ymgysylltu'r Brifysgol â'n rhanbarth yn dod yn fwyfwy pwysig. Mae'r amrywiaeth gynyddol o heriau a chyfleoedd sy'n wynebu'r dinas-ranbarth yn awr, yn golygu, fwy nag erioed, ei bod yn hanfodol bwysig fod y Brifysgol yn gweithio mewn partneriaeth â chymunedau a sefydliadau lleol i rannu syniadau ac i helpu i roi sylw i anghenion. Fel y cyfryw, rydym yn gobeithio y bydd y digwyddiad hwn nid yn unig yn dangos beth y gellir ei wneud, ond y bydd hefyd yn ysgogi syniadau newydd ar gyfer prosiectau a chydweithio. Felly, defnyddiwch y cyfleoedd sydd ar gael heddiw i roi eich awgrymiadau inni ynghylch sut gallem gryfhau ymhellach yr ymgysylltu â'r dinas-ranbarth.

Diolch am ymuno â ni heddiw. Gobeithio y byddwch yn mwynhau eich ymweliad ac yn cael eich ysbrydoli.

**Yr Athro Gillian Bristow**
Cyfnewidfa Dinas-Ranbarth, Prifysgol Caerdydd




Pierhead Building/Adeilad y Pierhead

Our academics and students work with a host of partners across the Cardiff Capital Region to improve health and wellbeing, strengthen educational attainment and raise the quality of our environment. Together, we are promoting innovation and building our sense of place.

Mae ein hacademyddion a’n myfyrwyr yn gweithio gyda llu o bartneriaid ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i wella iechyd a lles, i gryfhau cyrhaeddiad addysgol ac i wella ansawdd ein hamgylchedd. Gyda’i gilydd, rydym yn hyrwyddo arloesedd ac yn meithrin ein hymdeimlad o le.

# Exhibition plan

| | |
|---|---|
| 1 | Welsh Wound Innovation Centre |
| 2 | Commercial Development Team |
| 3 | CAER Heritage Project |
| 4 | National Software Academy / Y Lab |
| 5 | Centre for Community Journalism |
| 6 | Bee Friendly Urban Green Spaces |
| 7 | Community Gateway |
| 8 | Interactive Health Workshops |
| 9 | Spectroscopy in a Suitcase |
| 10 | Creative Cardiff Network |
| 11 | PCR Loan Box |
| 12 | Strong Communities, Healthier People |
| 13 | Safe-Tea Campaign / Dawnsio’r Lingo |
| 14 | REACH / Environmental Crowdsensing |

# Improving health and wellbeing

The **Welsh Wound Innovation Centre** is placing the city-region at the heart of wound care innovation. Drawing on patients' insights, it is making direct improvements to wound care in our region, and it is working closely with businesses, the NHS and Welsh Government to encourage business start-ups and inward investment.
**www.wwic.wales**

Students from the School of Medicine are using **interactive health workshops** to introduce pupils in areas of social deprivation to healthy living principles. In 2016, more than 1000 children from primary schools in the city-region have had hands-on experience with models and activities that teach them about the inner workings of the human body. For further information contact Dr Stephen Man **(ManS@cardiff.ac.uk)**.

Based on research undertaken by the Children's Burns Research Centre, the **Safe-Tea Campaign** aims to reduce the incidence and severity of hot drink scalds among pre-school children. Novel approaches – including use of thermal imaging footage, demonstrations and group discussions – are being trialled with parents in Flying Start areas of Cardiff. This trial is now being assessed to determine the feasibility of delivering a more wide-reaching campaign.

# Gwella iechyd a lles

Mae **Canolfan Arloesedd Clwyfau Cymru** yn gosod y dinas-ranbarth wrth graidd arloesedd ym maes gofal clwyfau. Gan ddefnyddio gwybodaeth gan gleifion, mae'n gwneud gwelliannau uniongyrchol i ofal clwyfau yn ein rhanbarth, ac mae'n gweithio'n agos gyda busnesau, y GIG a Llywodraeth Cymru i annog busnesau newydd a buddsoddiad o'r tu allan.
**www.wwic.wales**

Mae myfyrwyr o'r Ysgol Feddygaeth yn defnyddio **gweithdai iechyd rhyngweithiol** i gyflwyno disgyblion mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol i egwyddorion byw'n iach. Yn 2016, mae dros 1000 o blant o 31 ysgol gynradd yn y dinas-ranbarth wedi cael profiad ymarferol gyda modelau a gweithgareddau sy'n eu haddysgu am weithrediadau mewnol y corff dynol. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Dr Stephen Man **(ManS@cardiff.ac.uk)**.

Nod yr **Ymgyrch Te Diogel** sydd wedi'i seilio ar ymchwil a wnaed gan y Ganolfan Ymchwil Llosgiadau Plant, yw lleihau pa mor aml y mae damweiniau sgaldio diodydd poeth yn digwydd ymysg plant cyn ysgol a pha mor ddifrifol ydyn nhw. Mae dulliau newydd – gan gynnwys defnydd o ffilmiau sy'n dangos delweddu thermol, arddangosiadau a thrafodaethau grŵp – yn cael eu treialu gyda rhieni yn ardaloedd Dechrau'n Deg Caerdydd. Mae'r treial hwn bellach yn cael ei asesu i benderfynu a yw'n ymarferol cynnal ymgyrch fwy eang.

# Strengthening educational attainment

Thanks to the School of Biosciences' **PCR Loan Box scheme**, schools in our region have access to real-life research applications for the techniques they are teaching. The scheme gives pupils the opportunity to generate millions of copies of specific DNA sequences, and to learn directly from research staff and students about the important applications of this technique.
**sites.cardiff.ac.uk/cube/resources/loan-boxes/**

Through the Royal Society of Chemistry's **Spectroscopy in a Suitcase** programme for 14-18 year olds, the School of Chemistry provides hands-on experience with equipment normally available only in a lab setting. In 2015/16 the School delivered workshops to 1500 pupils in our region, helping them to more fully understand the theories they are learning.
**www.cardiff.ac.uk/chemistry/engagement/spectroscopy-in-a-suitcase**

**Dawnsio'r Lingo** (Dance the Lingo), a collaboration with POSSIB: Voices In Art, Menter Iaith Merthyr Tudful and 3Gs Development Trust, has seen pupils in six city-region primary schools use dance and movement to engage with Welsh as a second language. Initial evaluation shows that this innovative approach is improving pupils' retention of Welsh words. Contact Dr Ellie Byrne **(ByrneE@cardiff.ac.uk)** for more information.

The **REACH** project is helping young people in Butetown, Riverside and Grangetown to develop the skills, knowledge and confidence needed to access and thrive in further education. As part of a new, community-based approach to widening participation, the young people themselves are taking an active role in designing the support services they need. For further information contact Dr Helen Blakely **(BlakelyH1@cardiff.ac.uk)** or Helen Edgeworth **(Helenedgeworth@srcdc.org.uk)**



# Cryfhau cyrhaeddiad addysgol

Mae gan ysgolion yn ein rhanbarth fynediad i gymwysiadau ymchwil bywyd go iawn ar gyfer technegau y maent yn eu haddysgu, diolch i gynllun **Blwch Benthyg PCR** yr Ysgol Biowyddorau. Mae'r cynllun yn rhoi cyfle i ddisgyblion gynhyrchu miliynau o gopïau o ddilyniannau DNA penodol, ac i ddysgu'n uniongyrchol gan staff ymchwil a myfyrwyr am gymwysiadau pwysig y dechneg hon.
**sites.caerdydd.ac.uk/Cube/Resources/loan-boxes/**

Drwy raglen **Sbectrosgopeg mewn Cês Ddillad** Cymdeithas Frenhinol Cemeg ar gyfer rhai 14-18 oed, mae'r Ysgol Cemeg yn cynnig profiad ymarferol gydag offer sydd ar gael mewn labordai'n unig fel arfer. Yn 2015/16 cyflwynodd yr Ysgol weithdai i 1500 o ddisgyblion yn ein rhanbarth, gan eu helpu i ddeall yn well y damcaniaethau y maent yn eu dysgu.
**www.caerdydd.ac.uk/Chemistry/engagement/spectroscopy-in-a-suitcase**

**Dawnsio'r Lingo**, ar y cyd â POSSIB: Mae Lleisiau mewn Celf, Menter Iaith Merthyr Tudful ac Ymddiriedolaeth Datblygu 3Gs wedi gweld disgyblion mewn chwe ysgol gynradd yn y dinas-ranbarth yn defnyddio dawns a symud i ymgysylltu â'r Gymraeg fel ail iaith. Mae'r gwerthusiad cychwynnol yn dangos bod yr ymagwedd arloesol hon yn gwella faint o eiriau Cymraeg y mae disgyblion yn eu cofio. Cysylltwch ag Ellie Byrne **(ByrneE@Caerdydd.ac.uk)** i gael rhagor o wybodaeth.

Mae prosiect **REACH** yn helpu pobl ifanc yn Nhre-Bute, Glan yr Afon a Grangetown i ddatblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r hyder sydd eu hangen i gael mynediad i addysg bellach a ffynnu ynddi. Fel rhan o ddull newydd yn y gymuned i ehangu cyfranogiad, mae'r bobl ifanc eu hunain wrthi'n cynllunio'r gwasanaethau cymorth sydd eu hangen arnynt. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Dr Helen Blakely **(BlakelyH1@cardiff.ac.uk)** neu Helen Edgeworth **(Helenedgeworth@srcdc.org.uk)**

# Raising the quality of our environment

Researchers from the School of Pharmacy and Pharmaceutical Sciences, in partnership with colleagues from the University's Community Gateway, are working with schools and community groups to establish **bee friendly urban green spaces**. At the same time as learning about the importance of bees and biodiversity, participants are helping researchers in their ongoing search for plant-derived antibiotics. Search YouTube for "Cardiff bee friendly city" to find out more.
www.cardiff.ac.uk/pharmacy-pharmaceutical-sciences/about-us/engagement/pharma-bees

Community members in Grangetown are taking part in a pilot initiative that will see them engaging in "**environmental crowdsensing**". Armed with the tools and techniques needed to measure urban heat islands, air and water quality, acoustics, health and wellbeing, place-based identity and more, these community researchers are enabling us to better understand the benefits of urban green spaces.
www.cardiff.ac.uk/community-gateway/our-projects/clean-streets-and-green-spaces/environmental-crowdsensing



# Gwella ansawdd ein hamgylchedd

Mae ymchwilwyr o'r ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol, mewn partneriaeth â chydweithwyr o Borth Cymunedol y Brifysgol, yn gweithio gydag ysgolion a grwpiau cymunedol i sefydlu **mannau gwyrdd trefol sy'n gyfeillgar i wenyn**. Wrth ddysgu am bwysigrwydd gwenyn a bioamrywiaeth, mae'r cyfranogwyr yn helpu'r ymchwilwyr wrth iddynt ddal i chwilio am wrthfiotigau sy'n deillio o blanhigion. Chwiliwch YouTube am "Cardiff bee friendly city" i gael gwybod rhagor.
www.caerdydd.ac.uk/Pharmacy-Pharmaceutical-Sciences/about-us/engagement/pharma-Bees

Mae aelodau o'r gymuned yn Grangetown yn cymryd rhan mewn cynllun peilot lle byddant yn cymryd rhan mewn "**synhwyro data ar y cyd ym maes yr amgylchedd**". Wedi'u harfogi â'r offer a'r technegau sydd eu hangen i fesur ynysoedd gwres trefol, aer ac ansawdd dŵr, acwsteg, iechyd a lles, hunaniaeth sy'n seiliedig ar le a mwy, mae'r ymchwilwyr cymunedol hyn yn ein galluogi i ddeall manteision mannau gwyrdd trefol yn well.
www.caerdydd.ac.uk/community-Gateway/our-projects/Clean-Streets-and-Green-Spaces/Environmental-crowdsensing



# Promoting innovation

As a gateway to the University, the **Commercial Development** team provides businesses from across the region with opportunities – from Knowledge Transfer Partnerships to participation in Innovation Network events – to work with our staff and students, and to develop professional networks.
www.cardiff.ac.uk/business

The Newport-based **National Software Academy** is helping to meet industry need for qualified software engineers, ensuring that students benefit from access to leading-edge commercial tools and techniques, and interact extensively with industry professionals.
www.cardiff.ac.uk/software-academy

**Y Lab**, the Public Services Innovation Lab for Wales, is a partnership with innovation charity Nesta. Researchers and innovation experts have come together with policy-makers and practitioners to test solutions to major societal challenges.
www.cardiff.ac.uk/innovation/our-partnerships/y-lab

The **Creative Cardiff Network** connects creative organisations and individuals throughout the city-region. The Network has rapidly established itself as a valued resource, and its members are generating new conversations that enhance and promote our region's creative economy.
www.creativecardiff.org.uk

# Hyrwyddo arloesedd

Fel porth i'r Brifysgol, mae'r tîm **Datblygu Masnachol** yn cynnig cyfleoedd i fusnesau ar draws y rhanbarth – o Bartneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth i gymryd rhan yn nigwyddiadau'r Rhwydwaith Arloesedd – i weithio gyda'n staff a'n myfyrwyr, ac i ddatblygu rhwydweithiau proffesiynol.
www.caerdydd.ac.uk/cy/business

Mae'r **Academi Meddalwedd Genedlaethol** yng Nghasnewydd yn helpu i ddiwallu anghenion byd diwydiant am beirianwyr meddalwedd cymwysedig, gan sicrhau bod myfyrwyr yn elwa o fynediad i offer masnachol a'r technegau diweddaraf, ac yn rhyngweithio'n helaeth â gweithwyr proffesiynol y diwydiant.
www.caerdydd.ac.uk/software-academy

Mae **Y Lab**, y Labordy Arloesedd gwasanaethau cyhoeddus Cymru, yn bartneriaeth gyda'r elusen arloesi Nesta. Mae ymchwilwyr ac arbenigwyr arloesedd wedi dod ynghyd â gwneuthurwyr polisi ac ymarferwyr i brofi atebion i heriau cymdeithasol mawr.
www.caerdydd.ac.uk/Innovation/our-Partnerships/y-Lab

Mae **Rhwydwaith Caerdydd Creadigol** yn cysylltu sefydliadau ac unigolion creadigol ledled y prifddinas-ranbarth. Mae'r rhwydwaith wedi prysur sefydlu ei hun fel adnodd gwerthfawr, ac mae ei aelodau yn cynhyrchu sgyrsiau newydd sy'n gwella ac yn hyrwyddo economi greadigol ein rhanbarth.
www.creativecardiff.org.uk

# Building our sense of place

Global in its reach, the **Centre for Community Journalism** remains committed to local communities across our city-region – like those of Grangetown, the Rhondda and Merthyr Tydfil, where limited provision of local news risks creation of a democratic deficit.
www.communityjournalism.co.uk

**Strong Communities, Healthier People** is connecting Communities First areas in Merthyr Tydfil and Cardiff with their unique histories and cultures, and with one another. Through development of geocaching trails, participants are revealing the region's heritage, while developing new skills and improving their wellbeing. This project forms part of the Welsh Government's Pioneer Area programme, which aims to tackle poverty through culture.
www.cardiff.ac.uk/strong-communities-healthier-people

The **CAER Heritage Project**, an award-winning partnership with Action in Caerau and Ely, puts local people at the heart of cutting-edge archaeological research. Cardiff University historians and archaeologists are supporting schools and community members to actively explore the untold history of their area. Through its Young People Opportunities Project, CAER Heritage also supports Strong Communities, Healthier People's geocaching activities.
www.caerheritageproject.com

**Community Gateway** is building long-term partnerships with communities in Grangetown, helping them to make it an even better place. Since 2014, 38 projects have focused on themes from mental health to urban greening, and included events from philosophy cafés to a safety week. Community Gateway is currently working with its partners to establish Grange Bowls Pavilion as a permanent hub for community activity.
www.cardiff.ac.uk/community-gateway



# Meithrin ein hymdeimlad o le

Mae'r **Ganolfan ar gyfer Newyddiaduraeth Gymunedol** yn gallu cyrraedd pedwar ban y byd ac eto mae'n dal i fod yn ymrwymedig i gymunedau lleol ar draws ein dinas-ranbarth – fel Grangetown, y Rhondda a Merthyr Tudful, lle prinder newyddion lleol mewn perygl o greu diffyg democrataidd.
www.communityjournalism.co.uk

Mae **Cymunedau Cryf, Pobl Iachach** yn cysylltu ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf ym Merthyr Tudful a Caerdydd â'u hanesion a'u diwylliannau unigryw, ac â'i gilydd. Drwy ddatblygu llwybrau cof daearyddol, mae'r cyfranogwyr yn datgelu treftadaeth y rhanbarth, tra maent yn datblygu sgiliau newydd ac yn gwella eu lles. Mae'r prosiect hwn yn rhan o raglen Ardal Arloesi Llywodraeth Cymru, sy'n anelu at fynd i'r afael â thlodi drwy ddiwylliant.
www.caerdydd.ac.uk/strong-Communities-Healthier-people

Mae **Prosiect Treftadaeth CAER**, partneriaeth arobryn gyda Gweithredu yng Nghaerau a Threlái, yn rhoi pobl leol wrth wraidd ymchwil archeolegol arloesol. mae haneswyr ac archeolegwyr Prifysgol Caerdydd yn cefnogi ysgolion ac aelodau o'r gymuned i fynd ati i ymchwilio i hanes sydd heb ei adrodd yn eu hardal. Drwy ei Brosiect Cyfleoedd Pobl Ifanc, mae Treftadaeth CAER hefyd yn cefnogi gweithgareddau cof daearyddol Cymunedau Iach, Pobl Iachach.
www.caerheritageproject.com

Mae'r **Porth Cymunedol** yn meithrin partneriaeth hirdymor gyda chymunedau yn Grangetown, i'w helpu i'w wneud yn lle gwell byth i fyw ynddo. Ers 2014, mae 38 o brosiectau wedi canolbwyntio ar themâu o iechyd meddwl i wyrddu trefol, ac roedd yn cynnwys digwyddiadau o gaffis athroniaeth i wythnos ddiogelwch. Ar hyn o bryd mae'r Porth Cymunedol yn gweithio gyda'i bartneriaid i sefydlu Pafiliwn Bowlio Grange fel canolfan barhaol ar gyfer gweithgarwch cymunedol.
www.caerdydd.ac.uk/community-Gateway

# Partnering for Change

# Creu Newid ar y Cyd

**City Region Exchange/**
**Cyfnewidfa Dinas-Ranbarth**

www.cardiff.ac.uk/city-region-exchange
www.caerdydd.ac.uk/City-Region-Exchange

@CRE_CU